# Rhoi cyngor i ddarpar gleient ar brosiect ôlgynhyrchu

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â helpu darpar gleient i gael dealltwriaeth realistig o'r hyn y gellir ei gyflawni ar gyfer y prosiect o fewn ymarferoldeb amser, cyllideb a thechnoleg. Mae'n golygu egluro yn onest beth sy'n bosibl a hynny heb feirniadu cais y cleient. Mae hefyd yn golygu rhagweld yr amrywiol ffyrdd y gellir datblygu'r prosiect.

Gall y Safon hon fod yn berthnasol i unrhyw un o fewn ôl-gynhyrchu sy'n ymgysylltu â chleientiaid o ran darpar waith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau eich dealltwriaeth o'r cais, yr ymholiad neu brosiect posibl gan ddefnyddio gwybodaeth o ffynonellau arbenigedd dibynadwy
2. nodi'r hyn y mae angen i'r cleient ei wybod er mwyn bwrw ymlaen â'r prosiect, yn cynnwys materion yn ymwneud â chost, amser a gofynion technegol
3. ar sail cyllideb gyffredinol y darpar gleient, amcangyfri faint sydd ar gael ar gyfer ôl-gynhyrchu
4. darganfod beth sy'n bosibl o ran ymarferoldeb technegol, llif gwaith, cost ac amser yn unol â'r hyn y mae'r cleient am ei gyflawni
5. egluro posibiliadau, goblygiadau a chyfyngiadau i gleientiaid mewn modd cadarnhaol
6. gofyn am gyngor technegol gan gydweithwyr perthnasol i gynghori cleientiaid pan fo angen
7. dod o hyd i atebion sy'n cwrdd ag anghenion cleientiaid ac sydd â nodweddion a buddion a fydd yn ddeniadol iddynt, pan fo rhwystrau iddynt gyflawni'r hyn y maent ei eisiau
8. darparu gwybodaeth i'r cleient sy'n ddilys, yn gyflawn ac yn berthnasol
9. cynnal diogelwch gwybodaeth yn unol â gofynion y cwmni

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. galluoedd technegol y cyfleuster a'r bobl sydd ar gael
2. safonau gwylio cyfredol a safonau cyflawniadau cyflwyno proffesiynol, cenedlaethol a rhyngwladol ac arferion gorau ar gyfer ystod o lwyfannau a chynnwys
3. ffynonellau arbenigedd am brosiectau posibl a sut i'w cyrchu
4. faint o amser y mae gwahanol brosesau a llif gwaith yn ei gymryd a'u costau
5. cynllunio a dewis llif gwaith
6. problemau a risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o brosiectau
7. sut i nodi newidiadau mewn cynhyrchu a allai wneud arbedion sylweddol mewn ôl-gynhyrchu
8. y cyfraniadau creadigol y gall y bobl sydd ar gael eu gwneud i brosiect
9. pwy i ymgynghori am ragor o wybodaeth neu arweiniad ar wahanol fathau o brosiectau a gofynion technegol
10. sut i ddeall anghenion darpar gleient y tu hwnt i'w gais cychwynnol
11. sut i ganfod os yw disgwyliadau'r cleient o ran cyflenwi yn gyrhaeddadwy
12. sut i benderfynnu ar y prosesau gorau i'w dilyn i gynhyrchu'r prif ofyniad cyflwyno
13. sut i gyflwyno atebion i gwestiynau a chynigion mewn ffyrdd y bydd cleientiaid posibl yn eu deall
14. systemau storio, cefnogi a diogelwch y cwmni

Rhoi cyngor i ddarpar gleient ar brosiect ôlgynhyrchu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative Skillset |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPP02 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Ôl-gynhyrchu |
| **Geiriau Allweddol** | Ôl-gynhyrchu, Cynhyrchu, Ffilm, Theledu, Cleient |